

# PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1G

## CYFLWYNO HYSBYSIADAU

### **Deddfwriaeth**

1. Mae'r rheoliadau canlynol yn gosod y weithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiadau:
  - Rheoliad 40 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
  - Rheoliad 35 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
  - Rheoliad 46 o Reoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2010 (OS 2010/713)

### **Dull Cyflwyno (gan gynnwys post, e-bost)**

2. Dylai partïon nodi eu hoff ddull cyfathrebu a nodi'n glir y cyfeiriad y maent yn dymuno Tribiwnlys Prasio Cymru (TPC) ei ddefnyddio.
3. Dylai partïon hysbysu TPC os bydd eu manylion gohebiaeth yn newid.

### **Cyflwyno trwy'r post**

4. Bernir y bydd post dosbarth cyntaf wedi'i dderbyn ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl ei bostio a phost ail ddosbarth ar y pedwerydd diwrnod gwaith, oni bai bod prawf i'r gwrthwyneb.

### **Cyfathrebu electronig gyda'r Tribiwnlys**

5. Bydd cyfathrebu electronig yn cael ei drin fel rhywbeth a wasanaethir ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl ei anfon oni bai bod prawf i'r gwrthwyneb.
6. Ni all system TG TPC dderbyn atodiadau o fwy na 10 megabeit.